Teyrnged Bersonol i

John Stott

(1921-2011)

Tua 3.15 y prynhawn ar 27 Gorffennaf 2011, yn sŵn *Meseia* Handel, bu farw John Stott yn 90 oed. Ers hynny, mae toreth o deyrngedau wedi ymddangos. Dyma un arall. Er bod llawer sy'n gymhwysach na mi ar gyfer y gorchwyl hwn, rhaid i mi gyfaddef fy mod i'n teimlo rhyw reidrwydd i ddweud rhywbeth amdano. Roedd y Sais byr yn gawr o ddyn ac yn un o fawrion Cristnogaeth efengylaidd yn ystod y cyfnod diweddar. Efallai taw un mesur o fawredd John Stott yw ei bod yn amhosibl peidio â'i edmygu hyd yn oed wrth anghytuno ag ef ynghylch rhai pethau. Dyma rai o'r pethau sy'n dod i'm meddwl i.

Y dyn

Roedd John Stott yn ddyn disgybledig. Bu'n ddisgybledig ei ddarllen gan osod patrwm o dreulio chwarter awr gyda'i lyfrau bob dydd, hanner diwrnod unwaith yr wythnos, diwrnod cyfan unwaith y mis, ac wythnos gyfan unwaith y tymor. Roedd yn ddisgybledig yn ei fywyd defosiynol gan ddilyn cynllun Robert Murray McCheyne ar gyfer darllen trwy'r Beibl unwaith y flwyddyn (gan gynnwys y Testament Newydd a'r Salmau ddwywaith). Byddai'n dihuno bob bore am 5 o'r gloch er mwyn cyflwyno'r diwrnod a'i hun i Dduw.

Yn ogystal â'i weinidogaeth yn eglwys fawr All Souls yn Langham Place, Llundain, bu'n brysur mewn ymgyrchoedd efengylu mewn prifysgolion ac ar draws y byd, gan barhau i bregethu yn ei wythdegau. Cofiaf ei glywed yn Aberystwyth ddiwedd yr wythdegau yn sôn am yr ymgyrch efengylu y bu'n ei harwain yno dros ugain mlynedd ynghynt. Daeth rhywrai i'r bywyd yn ystod yr ymgyrch honno, ac roedd John Stott yn dal i gofio amdanynt mewn gweddi. A dim ond un ymgyrch ymhlith cannoedd oedd honno.

Roedd hefyd yn ddyn grasol. Pan ymddangosodd rhywun o gynulleidfa Westminster Chapel (lle'r oedd Dr Martyn Lloyd-Jones yn gweinidogaethu) yn Langham Place ryw fore Sul roedd yn amlwg bod rhywbeth yn ei gorddi: '*I'm not a disciple of the great Doctor*', meddai'n grafog. '*Oh, but I am*', oedd ateb annisgwyl ond heddychol y Rheithor. Yn ddiweddarach, bu anghydweld cyhoeddus rhwng y ddau arweinydd efengylaidd ar fater undod eglwysig, ond hyd yn oed wedyn gofalodd na fyddai eu gwahaniaethau'n effeithio ar eu perthynas â'i gilydd trwy ymweld â'i hen gyfaill yn ei gartref pan oedd iechyd y Cymro'n dechrau pallu.

Y llyfrau

Dyn diariangar iawn oedd John Stott, ac roedd wedi rhoi ymaith y rhan fwyaf o'i eiddo ymhell cyn iddo farw, ond efallai taw'r etifeddiaeth fwyaf gwerthfawr a adawodd yw'r 51 o lyfrau a ysgrifennodd. Er bod dealltwriaeth Stott o'r berthynas rhwng gweithgarwch cymdeithasol a'r efengyl yn broblem, mae *Issues Facing Christians Today* a *The Contemporary Christian* yn parhau i fod yn fannau da i ddechrau meddwl am faterion cyfoes o safbwynt beiblaidd. Yn bendant, mae pwyslais John Stott ar gymhwyso'r efengyl i fywyd pob dydd, a'i esiampl yn hyn o beth, yn her bwysig. Bu hefyd yn un o brif hyrwyddwyr y pregethu esboniadol a adferwyd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, ac mae *I Believe in Preaching* yn llawn cyngor buddiol. Yn bersonol, rwyf wedi cael y blas mwyaf ar ei esboniadau. Ei esboniad ar yr Epistol at y Galatiaid yng nghyfres *The Bible Speaks Today* IVP yw'r un gorau i mi ddod ar ei draws ar lyfr sy'n gallu bod yn ddigon cymhleth mewn mannau. Rwyf wedi rhyfeddu dro ar ôl tro at ei ddawn i ddod o hyd i raniadau clir a



naturiol yn yr Ysgrythur ac i grisialu neges darn yn gryno.

Un llyfr

Eto i gyd, rhaid i mi ddod yn awr at yr hyn sydd wedi fy nghymell i ysgrifennu hyn o eiriau. Ni allaf feddwl am John Stott heb gofio am un llyfr yn arbennig: *Basic Christianity*. Pan oeddwn i mewn dryswch ysbrydol llwyr, yn llawn syniadau niwlog am grefydd a bywyd, y llyfr hwn a'm hysgogodd i ystyried o ddifrif pwy oedd Iesu Grist ac a ddangosodd i mi ei fod yn berson cwbl unigryw. Y llyfr hwn a'm helpodd i ddeall dysgeidiaeth Crist am bechod yn y galon ac am farn Duw. A thrwy'r llyfr bach hwn y cefais wybod am yr unig ateb i'm pechod ym marwolaeth Iesu Grist ar y groes a siars i gredu ynddo. Byddaf yn nyled John Stott am byth am hyn. Tybed faint rhagor, fel finnau, sy'n diolch amdano a'i gymwynas?

Geraint Lloyd

Mae Geraint Lloyd yn gyfieithydd ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Ffurflen Tanysgrifio i'r *Cylchgrawn Efengylaidd*

○ **a**. Hoffwn dderbyn y *Cylchgrawn Efengylaidd* yn rheolaidd gan ddechrau gyda rhifyn.....

○ **b**. Hoffwn geisio dosbarthu ..... copi o'r *Cylchgrawn Efengylaidd* (ni fydd rhaid i ddosbarthwyr dalu am bris cludiad).

*Rhowch groes wrth ochr **a** neu **b** yn ôl y gofyn*

Enw .....

Cyfeiriad.....

.....

tel: .....

Tanysgrifiad blwyddyn yn cynnwys cludiad: £8.00 (tramor: gweler isod)

Dychweler y ffurflen hon i:

Mudiad Efengylaidd Cymru, Bryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4DX

Dylid gwneud sieciau yn daladwy i: 'Mudiad Efengylaidd Cymru'

—tanysgrifiad blwyddyn

Ym Mhrydain: £8.00, Post Awyr yn Ewrop: £9.80

Post Awyr tu allan i Ewrop: £12.20 Post Tir a Môr tu allan i Ewrop: £9.20